Gwasanaeth Blynyddol

Mae'r Cyngor yn rhwymedig yn gyfreithiol i wneud gwasanaeth blynyddol i gydrannau penodol yr eiddo, sydd yn yn cynnwys y system wresogi a dŵr poeth, larymau mwg a synwyryddion CO lle maent wedi'u gosod, i sicrhau bod yr holl offer yn ddiogel.

Lle mae system wresogi ganolog nwy yn eich eiddo, byddwn yn cynnal archwiliad diogelwch landlord am gyfnodau nid yn hirach na 12 mis a lle mae system wresogi tanwydd solet, am gyfnodau nid yn fwy na 6 mis.

Bydd gwasanaeth pob cydran yn cael ei gynnal ar yr un pryd, er mwyn lleihau anghyfleustra i chi, ond dim ond os oes cyflenwad nwy gennych chi (ar gyfer gwres canolog nwy) a thrydan (ar gyfer nwy a gwres tanwydd solet) yn eich cartref. Os oes gennych fesuryddion credyd, bydd angen i chi sicrhau fod credyd ar y mesurydd cyn bod y gwasanaeth yn cael ei wneud. Mae'n bwysig os oes gennych danwydd solet mae angen i chi aros i'r tân fynd allan cyn yr apwyntiad.

Fel tenant mae'r ofynnol i chi roi mynediad i'n contractwyr fynychu eich cartref am wasanaeth blynyddol i gael ei wneud. Mae'n bwysig er eich diogelwch fod hwn yn cael ei wneud. Bydd methu a chaniatáu mynediad yn arwain at y Cyngor yn gorfod gwneud mynediad gorfodaeth er mwyn cydymffurfio gyda'n rhwymedigaethau statudol. Os nad oes cyflenwad nwy neu drydan, byddwn yn atal eich nwy ac ni fyddwch yn gallu defnyddio'ch gwres.

Lle mae Cartrefi Caerffili yn teimlo ei fod yn angenrheidiol, yn y digwyddiad anarferol fod yr eiddo yn wag yn ystod eich tenantiaeth, er mwyn sicrhau fod eich cartref mewn trefn ac i ddiogelu eich eiddo, ni all Cartrefi Caerffili fod yn atebol am unrhyw eiddo coll neu wedi'i ddifrodi i'ch eiddo o ganlyniad i hyn.